# Mesur Tai (Cymru) 2011

**2011 mccc 5**

## RHAN 1

ATAL DROS DRO YR HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG

## PENNOD 2

AMRYWIO CYFARWYDDYD I ATAL DROS DRO
YR HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG

### 7 Ystyr "amrywiad ehangu" ac "amrywiad lleihau" etc

(1) At ddibenion y Bennod hon, ystyr "amrywiad ehangu" yw amrywiad i gyfarwyddyd a ddyroddwyd o dan y Rhan hon sy'n gwneud un o'r newidiadau a ganlyn neu'r ddau (a dim newidiadau eraill)—

- (a) newid y cyfarwyddyd fel ei fod yn gymwys i ardal nad oedd yn gymwys iddi cyn hynny;
- (b) newid y cyfarwyddyd fel ei fod yn gymwys i fath neu fathau o dŷ annedd perthnasol nad oedd yn gymwys iddo neu iddynt cyn hynny;

a rhaid dehongli "elfennau ehangu" yn unol â hynny.

(2) At ddibenion y Bennod hon, ystyr "amrywiad lleihau" yw amrywiad i gyfarwyddyd a ddyroddwyd o dan y Rhan hon sy'n gwneud un o'r newidiadau a ganlyn neu'r ddau (a dim newidiadau eraill)—

- (a) newid y cyfarwyddyd fel nad yw bellach yn gymwys i ardal yr oedd yn gymwys iddi cyn hynny;
- (b) newid y cyfarwyddyd fel nad yw bellach yn gymwys i fath neu fathau o dŷ annedd perthnasol yr oedd yn gymwys iddo neu iddynt cyn hynny;

a rhaid dehongli "elfennau lleihau" yn unol â hynny.